

Nodyn o Gyfarfod Cyngor Datblygu'r Economi

Amser: 10:30 - 12.30

Dyddiad: 22 Hydref 2018

Lleoliad: Caerdydd 1, Parc Cathays, Caerdydd.

Gweinidogion oedd yn Bresennol

Enw	Sefydliad
Mark Drakeford AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Julie James	Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Eluned Morgan	Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Ymddiheuriadau	
Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC	Prif Weinidog
Ken Skates AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Rhandeiliaid oedd yn Bresennol

Paul Byard	EEF (Cadeirydd Commerce Cymru)
Julie Cook	TUC Cymru
Ben Cottam	Ffederasiwn Busnesau Bach
Heather Eason	Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
Sally Gilson	Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
Ifan Glyn	Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr
Paul Greenwood	Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru
Mark Judd	Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
Nigel Keane	Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
Robert Lloyd Griffiths	IoD
Nisreen Mansour	TUC Cymru
Lowri Morgan	Cymdeithas y Cyfreithwyr
Heather Myers	Siambr Fasnach De Cymru
Lloyd Powell	ACCA
Ian Price	CBI
Shavanah Taj	TUC Cymru
Derek Walker	Canolfan Cydweithredol Cymru
Martin Warren	ICAEW
Ceri Williams	TUC Cymru

Ymddiheuriadau

Julie-Ann Haines	CML
Mark Harris	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Leighton Jenkins	Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
Michael Jenkins	TUC Cymru
Martin Mansfield	TUC Cymru
Martin McAuley	Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
Huw Thomas	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr

Swyddogion Llywodraeth Cymru;

Y Fonesig Shan Morgan DCMG	Yr Ysgrifennydd Parhaol
Paul Casey	Eitem 2 ar yr agenda
Andrew Clark	Eitem 5 ar yr agenda
Paul Harrington	Eitem 2 ar yr agenda
Matthew Hicks	Eitem 4 ar yr agenda
Nick Sullivan	Eitem 3 ar yr agenda
Marcella Maxwell	Pennaeth Cynllun Gweithredu Economaidd
Huw Morris	Cyfarwyddwr Grŵp - SHELL
Andrew Slade	Cyfarwyddwr Cyffredinol - Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Emma Watkins	Dirprwy Gyfarwyddwr - Polisi Economaidd
Adam Jurd	Cofnodion
Iwan Thomas	Cofnodion

1. Cyflwyniadau a Sylwadau Agoriadol

- 1.1 Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid aelodau'r Cyngor i'r cyfarfod. Dywedodd y byddai'n cadeirio'r ddwy brif eitem gyntaf ar yr agenda yn absenoldeb y Prif Weinidog. Byddai gweddill y cyfarfod yn cael ei gadeirio fel a ganlyn:

- Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip – arwain adolygiad yr Athro Phil Brown o Arloesi Digidol ar gyfer yr Economi a Dyfodol Gwaith yng Nghymru; a
- Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – arwain y drafodaeth ar brentisiaethau.

- 1.2 Hefyd, croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet Paul Greenwood i'r cyfarfod fel cynrychiolydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru.

- 1.3 Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet beth oedd y pedair brif eitem ar yr agenda, sef:

- Yr wybodaeth ddiweddaraf am Drefniadau Pontio'r UE;
- Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol;
- Adolygiad yr Athro Phil Brown o Arloesi Digidol ar gyfer yr Economi a Dyfodol Gwaith yng Nghymru; a
- Prentisiaethau.

2. Yr wybodaeth ddiweddaraf am Drefniadau Pontio'r UE;

- 2.1 Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yr wybodaeth ddiweddaraf am y prif bwyntiau mewn perthynas â threfniadau pontio'r UE gan groesawu cwestiynau a sylwadau ar ôl y diweddariad.

- 2.2 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Fforwm Gweinidogion yn cyfarfod yn rheolaidd. Roedd cyfarfod yn cael ei gynnal y bore hwnnw i drafod cytundebau cydweithredol ym maes Gwyddoniaeth ac Arloesi a Diwylliant ac Addysg.
- 2.3 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn ddiolchgar i'r rheini oedd yn ymwneud â'r Gweithgor Ymadael â'r UE ac am ddatblygu Porthol Brexit Busnes Cymru. Dywedodd fod gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ddiddordeb uniongyrchol yn hyn a'i fod yn parhau i ymgysylltu â chyflogwyr ledled Cymru yng nghyswllt y maes hwn.
- 2.4 Rhannodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wybodaeth a gafodd mewn cyfarfod o Gydgynghor y Gweinidogion y bu ynddo yn ddiweddar. Dywedodd fod llywodraeth y DU yn ystyried fod tua 95% o'r gwaith oedd angen ei wneud i gytuno ar delerau terfynol Brexit wedi'i wneud a bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE yn weddol hyderus y gellid cytuno ar delerau yn yr hydref. Er hynny, pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet pe na fyddai'r prif bwyntiau yr oedd anghytundeb eu cylch yn cael eu datrys, byddai'r trafodaethau yn broblemus. Er bod Cynllun Chequers yn cael ei ystyried yn gam i'r cyfeiriad iawn, mae problemau sy'n mynd i fod yn anodd eu datrys - y ffin rhwng Gogledd Iwerddon a gweddill y wlad er enghraifft; hollti gwasanaethau a nwyddau; trefniadau deuol ar gyfer tollau; a symudedd/mudo.
- 2.5 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai gadael yr UE 'heb gytundeb' yn amharu'n sylweddol ar economi Cymru. Un ystyriaeth benodol oedd mudo. Dywedodd mai peth di-fudd oedd gwahaniaethu rhwng gweithwyr mudol sgiliau uchel a sgiliau isel gan fod angen y naill a'r llall ar economi Cymru. Awgrymodd y byddai pennu trothwy enillion mympwyol ar gyfer mudwyr yn atal mynediad angenrheidiol i lafur sgiliau is.
- 2.6 O safbwynt deddfwriaeth, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod gwell cydweithrediad bellach ond mynegodd bryderon ynghylch pa mor dynn oedd yr amserlen ar gyfer cyflawni. Mae gan Lywodraeth Cymru raglen ddeddfu at ddibenion gwneud y cywiriadau technegol a fydd yn angenrheidiol i sicrhau bod y llyfr statud yn gweithio ar ôl i ni adael yr UE.
- 2.7 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd y cyfnod pontio pitw o 21 mis yn ddigon a'i fod yn galw am hyblygrwydd. Dylem osgoi cael ein hunain ar ymyl y dibyn er mwyn hwyluso cael cytundeb gwell. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi ysgrifennu at Bennaeth Senedd Ewrop ynghylch y mater o hyblygrwydd. Dywedodd y byddai angen i'r cytundeb terfynol gael ei gymeradwyo a'i lofnodi gan yr holl aelod-wladwriaethau yn ogystal â Senedd Ewrop a Senedd y DU, a allai ei gwneud yn anodd cwblhau'r broses.

- 2.8 Crybwyllodd Ian Price y diffyg eglurder o ran i ba gyfeiriad rydym yn mynd yng nghyd-destun Brexit. Gwelodd fwy a mwy o bryder a rhwystredigaeth yn codi ymysg mynychwyr bwrdd crwn y bu ynddo yn ddiweddar yng ngogledd Cymru ac ar raddfa fwy cyffredinol hefyd ymysg busnesau ers diwedd yr haf. Awgrymodd y dylai busnesau fod yn lobïo AS. Hefyd, yn ei farn ef, roedd hwn yn fater oedd yn codi ei ben ledled y DU ac roedd angen gweithio gyda rhanbarthau a gweinyddiaethau datganoledig eraill. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet drwy ddweud fod lobïo'r llywodraeth yn ddefnyddiol ac roedd cwmnïau fel Ford ac Airbus yn cyflwyno achosion clir ynglŷn ag effaith Brexit.
- 2.9 Dywedodd Ben Cottam ei fod yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet pan ddywedodd fod y gyfran anghyflawn o drafodaethau oedd ar ôl yn destun pryder. Dywedodd nad oedd llawer o fusnesau wedi paratoi ar gyfer Brexit. Diolchodd i'r rhai oedd yn gysylltiedig â'r gwaith ar Borthol Brexit - roedd yn dangos awydd i helpu busnesau.
- 2.10 Dywedodd Robert Lloyd Griffiths ei fod wedi mynegi pryderon ynghylch y posibilrwydd o gwmnïau angori yn symud allan o Gymru, gan gael effaith andwyol ar gymunedau a chadwyni cyflenwi. Awgrymodd y gellid gwneud mwy o ran sôn am gyfleoedd ar Borthol Brexit. Yn hwyrach ymlaen, nododd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Busnes Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ar Borthol Brexit.
- 2.11 Rhoddodd Heather Myers wybod i'r cyfarfod fod Siambrau Masnach Prydain wedi cwblhau ymchwil oedd yn nodi nad oedd 62% o gwmnïau wedi cynnal asesiad o risg mewn perthynas â Brexit (roedd canran uwch yn fwy cyffredin mewn cwmnïau bach a chwmnïau micro).
- 2.12 O ran mudo, dywedodd Heather ei bod yn siomedig nad oedd y Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi Nodyn Technegol. Yn ddiweddarach, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet wybod i aelodau bod ymateb di-ildio wedi dod gan y Swyddfa Gartref i fudo a'i fod yn meddwl y byddai Papur Gwyn yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Dywedodd hefyd fod dros 100 o Nodiadau Technegol wedi cael eu cyhoeddi a bod bob un ohonynt yn cynnwys newyddion drwg i gwmnïau – er mwyn eu paratoi ar gyfer y sefyllfaoedd gwaethaf posibl.
- 2.13 Holodd Heather beth oedd y sefyllfa ar hyn o bryd o ran sgiliau – gan nodi y byddai'n anodd i fusnesau gynllunio ar gyfer prinder sgiliau. Gofynnodd hefyd am y cyfnod pontio a'r gofynion o ran adnoddau ar Siambrau Masnach Prydain a Llywodraeth Cymru.
- 2.14 Cododd Paul Greenwood hefyd y mater o sgiliau, gan ddweud fod rhai diwydiannau yn dibynnu ar yr UE a mudo. Tynnodd sylw at y ffaith fod busnesau yng Nghymru angen gweithwyr sgiliau uchel a gweithwyr sgiliau isel

fel ei gilydd. Dywedodd Paul fod busnesau wedi bod yn eithaf digyffro ynglŷn â Brexit i ddechrau ond erbyn hyn roedd pobl yn y gymuned fusnes yn teimlo'n fwy a fwy nerfus ynghylch y mater. Roedd pryder arbennig ymysg busnesau mewnforio, ond nid oedd cwmnïau allforio yn poeni gymaint oherwydd pe bai gwerth y bunt yn mynd i lawr, byddai hyn yn lleddfu ar rai problemau y gallent eu hwynebu. Dywedodd y gallai cwsmeriaid ddechrau edrych ar gyflenwyr eraill yn sgil y diffyg eglurder oedd yn bodoli ar hyn o bryd.

- 2.15 Lleisiodd Sally Gilson bryderon y sector trafndiaeth a dosbarthu, gan ddweud bod gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm a gweithwyr cysylltiedig yn dechrau dod yn brin. Dywedodd na chyhoeddwyd ond 1,200 o drwyddedau i yrwyr yn y DU er bod angen darparu ar gyfer dros 100,000 o symudiadau. Roedd hyn yn golygu y byddai'r mwyafrif yn dechrau defnyddio cludwyr tramor. Nododd y byddai darparu mwy o warysau yn ddrud ac yn mynd ag amser. Yn ogystal, meddai, nid oedd porthladdoedd Cymru mewn sefyllfa i ddiwallu anghenion parcio ychwanegol.
- 2.16 Dywedodd Paul Byard bod cyfnod pontio yn rhywbeth i'w groesawu o ran Brexit heb gytundeb, ond, os na cheir eglurder yn ystod y cyfnod pontio, gallai hyn ynddo'i hun fod yn niweidiol i fusnesau.
- 2.17 Cododd Ben Cottam bryderon ynghylch contractau'n cael eu hysgrifennu gyda risgiau posibl cysylltiedig â Brexit yn cael eu rhoi ar ysgwyddau cyflenwyr. Cododd Ian Price y pwynt bod cwmnïau'n dechrau ailysgrifennu contractau er mwyn pasio'r risgiau cysylltiedig â Brexit ymlaen.
- 2.18 Roedd Shavanah Taj am wybod mwy am ddyfodol cymorth rhanbarthol ar ôl Brexit a rôl bosibl i TUC Cymru.
- 2.19 Holodd Robert Lloyd-Griffiths am Gynllunio ar gyfer Argyfyngau Sifil Posibl ar lefel Cymru a'r DU, gan fynegi pryder ynghylch parhad.
- 2.20 Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r pryderon hyn drwy ddweud bod angen i unrhyw gyfnod pontio fod mor glir â phosibl, oherwydd gallai cyfnod o ansicrwydd estynedig esgor ar ganlyniadau anfwriadol. Yng nghyswllt cymorth rhanbarthol, dywedodd bod yn rhaid i Gymru gael bob ceiniog sy'n ddyledus iddi nawr ac ar ôl Brexit a bod yn rhaid datganoli Cronfa Ffyniant y DU, fel y mae'n effeithio ar Gymru, yn gyfan gwbl. Dywedodd nad oedd modd rhedeg datblygiadau rhanbarthol o adrannau'r Llywodraeth yn Whitehall. O safbwynt cynllunio ar gyfer argyfyngau, mae gwaith ar y gweill ac roedd Swyddfa'r Cabinet yn llunio cynllun ar gyfer y DU a bydd angen i Gymru gael rhyngwyneb priodol yn y broses.
- 2.21 Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, i'r cyfarfod.

3. Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

- 3.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y papur ar yr adolygiad o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS). Dywedodd fod Brexit yn un o brif ysgogwyr yr adolygiad a bod yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn bwysig iawn. Ar hyn o bryd roedd NPS yn werthfawr i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn maes cyfng iawn. Byddai'r NPS yn cael ei ddatblygu'n raddol ar ei newydd wedd, heb wthio defnyddwyr i ymyl y dibyn, a heb gefnu ar gontractau presennol. Yn y dyfodol byddai'r NPS yn llai ac yn gweithredu mewn modd mwy penodedig, gyda rhanddeiliaid yn cael cymorth i gydweithredu ar sail fwy rhanbarthol a buddsoddi mewn cohort newydd o weithwyr caffael cyhoeddus proffesiynol yng Nghymru.
- 3.2 Byddai hyn yn galw am wneud penderfyniadau ar lefel ranbarthol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Economaidd i gryfhau sylfaen gyflenwi Cymru yn unol â Gwaith Teg a datgarboneiddio ac ati.
- 3.3 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn awyddus i weithio gyda phobl berthnasol er mwyn i'r trefniant ar gyfer y dyfodol fod yn hyblyg. Dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn buddsoddi yn sgiliau gweithwyr proffesiynol ym maes caffael cyhoeddus. Roedd caffael wedi bod yn cael ei ystyried yn broses o 'droi'r handlen' – dywedodd y byddai'r trefniant newydd yn symud oddi wrth hyn ac yn cynnwys gweithwyr caffael proffesiynol o ran gwneud penderfyniadau. Felly, byddai angen datblygu sgiliau gweithwyr caffael proffesiynol.
- 3.4 Dywedodd Martin Warren ei fod yn edrych ymlaen at y newidiadau, gan nodi bod gormod o ganolbwytio ar brisio mewn contractau ar hyn o bryd.
- 3.5 Dywedodd Ceri Williams y dylai polisïau caffael hyrwyddo cyd-fargeinio a chontractau ag undebau. Gofynnodd am unrhyw wybodaeth bellach am brosiectau domestig, gan gynnwys Swyddi Gwell yn Nes Adref.
- 3.6 Nododd Ben Cottam y dylid ystyried caffael yn adnodd cadarnhaol ar gyfer datblygu economaidd.
- 3.7 Gofynnodd Ian Price sut y byddai Llywodraeth Cymru'n mynd ati o ran llwybr caffael Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit i sicrhau bod y manteision cysylltiedig yn cael eu cadw.
- 3.8 Cododd Derek Walker y pwynt ei bod yn bwysig sicrhau bod arferion da yn cael eu mabwysiadu ar raddfa eang.
- 3.9 Dywedodd Heather Myers fod rhai busnesau yn ei chael yn anodd ymgysylltu â fframweithiau, gan nodi'r angen i fod yn hyblyg yng nghyswllt Brexit.

- 3.10 Nododd Paul Greenwood y byddai rhoi mwy o bwyslais ar ansawdd contractau yn hytrach na'u cost yn newid derbyniol iawn, gan gynnwys canolbwyntio ar sgiliau'r gweithlu fel rhan o'r meini prawf gwerthuso.
- 3.11 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r aelodau am groesawu'r ffocws rhanbarthol newydd. Dywedodd, er bod defnyddio caffael fel adnodd yn her, mae gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ei gryfderau ac roedd wedi cynyddu nifer y busnesau yng Nghymru oedd yn gysylltiedig â'r maes. Serch hynny, roedd yn amlwg ei fod wedi methu ennyn brwdfrydedd cyflenwyr a sefydliadau'r sector cyhoeddus. O ran Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, tynnodd sylw at y trafodaethau llwyddiannus â llywodraeth y DU, sydd am ddisodli'r system bresennol â threfniant tebyg yn y tymor byr. Dywedodd y byddai angen dull priodol o gynnwys cyfleoedd yng Nghymru a GwerthwchiGymru yn y trefniant, a oedd wedi ennill rhywfaint o gefnogaeth gan lywodraeth y DU.
- 3.12 Rhoddodd Arweinydd y Tŷ fanylion pedwar cynllun peilot ym maes caffael yng Nghymru. Maent yn cynnwys: arwyddion; paent; cyfleuster ailgylchu papur; a thrwydded ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol Kevlar. Roedd bob un o'r cynlluniau peilot yn cynnwys elfen Gwaith Teg. Mae'r cynlluniau'n cael eu hasesu ar hyn o bryd o safbwynt pa mor ymarferol fyddai eu defnyddio ar raddfa fwy.
- 4. Adolygiad yr Athro Phil Brown o Arloesi Digidol ar gyfer yr Economi; a Dyfodol Gwaith yng Nghymru**
- 4.1 Rhoddodd Arweinydd y Tŷ'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o waith y Panel Arbenigwyr oedd yn cynorthwyo'r Athro Brown. Dywedodd fod yr adolygiad yn mynd rhagddo'n dda. Byddai cyfle i ymgysylltu mwy tua diwedd mis Tachwedd ar ôl yr adroddiad interim.
- 4.2 Trafododd Ian Price y broses cais am dystiolaeth a'r amserlen ar gyfer ymateb. Gofynnodd a oedd modd rhannu'r papur â'r Comisiwn Gwaith Teg; ymatebodd Arweinydd y Tŷ drwy ddweud ei fod eisoes wedi cael ei rannu â'r Comisiwn. Gofynnodd Ian hefyd a oedd yn bosibl cael estyniad er mwyn caniatáu amser i ymateb i'r adroddiad. Atebodd Arweinydd y Tŷ efallai y byddai hyn yn bosibl pe bai modd ei ddarllen yn eithaf cyflym, ond nododd mai adroddiad interim oedd hwn, ac felly byddai cyfle i weld fersiynau eraill.
- 4.3 Roedd Julie Cook yn croesawu'r papur ac roedd yn falch o allu darparu tystiolaeth ar ei gyfer. Dywedodd ei bod am weld bob rhan o Gymru yn profi manteision digidoli mewn modd teg.

- 4.4 Trafododd Arweinydd y Tŷ newidiadau i ddigido gwasanaethau cyhoeddus, gan nodi bod y gwasanaeth cyhoeddus yn galw am drawsnewid o ran sgiliau'r gweithlu. Hefyd, dywedodd fod aelodaeth y panel bellach wedi cael ei gryfhau.

5. Prentisiaethau

- 5.1 Cyflwynodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yr eitem gan dynnu sylw at y cyd-destun heriol yr oedd prentisiaethau'n gweithredu ynddo. Dywedodd ei bod yn bwysig cael economi sgiliau uchel gyda chyflogau da yng Nghymru ac i sefydlu strwythurau i gryfhau llais y gweithiwr. Crybwyllodd y Gweinidog mor werthfawr oedd mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau, yn arbennig mewn cyd-destun rhanbarthol.
- 5.2 Nododd brif ymrwymiad y Cynulliad ar gyfer y tymor hwn sef 100,000 o brentisiaethau. Cadarnhaodd fod chwarter y targed eisoes wedi cael ei gyflawni – ac roedd hyn yn cymharu'n ffafriol â Lloegr. Soniodd y Gweinidog am yr anawsterau oedd ynghlwm â'r Ardoll Brentisiaethau.
- 5.3 Tynnodd sylw at y ffaith nad oedd cymorth i gael yng nghyswllt prentisiaethau gwerth isel neu hyfforddiant ôl-radd. Dywedodd ei bod am weld mwy o brentisiaethau ym maes Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) a thwf mewn prentisiaethau uwch a gradd-brentisiaethau. Cyflwynwyd gradd-brentisiaethau eleni a byddant yn parhau i gael eu cyflwyno gydol y flwyddyn i ddod mewn meysydd fel Peirianeg a TGCh Ddigidol. Dywedodd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i fentrau oedd yn hyrwyddo prentisiaethau i bobl ifanc pan fyddant yn gadael yr ysgol
- 5.4 Roedd Lloyd Powell yn croesawu'r cynnydd a fu yn erbyn y targedau prentisiaethau yng Nghymru, ynghyd â gwaith Busnes Cymru a'r gwaith ar bartneriaethau sgiliau rhanbarthol. Cododd y mater o barch tuag at brentisiaethau o'i gymharu â'r llwybr academiaidd i waith. Nododd ei bryder hefyd ynghylch y diffyg cefnogaeth yng nghyswllt prentisiaethau Lefel 7. Ymatebodd y Gweinidog yn ddiweddarach i'r mater o barch cydradd rhwng prentisiaethau ac academia. Dywedodd bod angen hyrwyddo prentisiaethau, a byddai gradd-brentisiaethau yn helpu yn hyn o beth. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn amlwg o'r farn bod angen eu hyrwyddo. Roedd peth anhawster wedi bod o safbwynt sylw mewn ysgolion, ond roedd hyn yn newid ac roedd safonau hefyd yn newid. O ran prentisiaethau Lefel 7, roedd y Gweinidog yn derbyn bod rhwystredigaeth yn y cyswllt hwn ond roedd yn ymrwymedig i'r sefyllfa bresennol.
- 5.5 Roedd Ian Price yn canmol y targedau ond dywedodd y gellid gwneud mwy o safbwynt prentisiaethau. Gofynnodd a oedd digon o gyllid ar gael i gyflawni'r

targed. Yn ddiweddarach, dywedodd y Gweinidog fod cyllid yn ei le ond byddai modd cyflawni mwy gyda mwy o gyllid.

- 5.6 Roedd Robert Lloyd Griffiths hefyd yn croesawu'r targedau yng nghyswllt prentisiaethau, gan nodi mor bwysig oedd ymgysylltu yn hyn o beth. Yn ddiweddarach, ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud fod ymgysylltiad â busnesau wedi newid ac roedd cyllid ar gyfer prentisiaethau yn dechrau cael ei ddarparu.
- 5.7 Cyfeiriodd Ben Cottam at y fenter Rhowch Gynnig Arni, gan ofyn sut roedd hon yn ategu neu'n cyd-fynd â phrentisiaethau.
- 5.8 Mynegodd Sally Gilson bryder o ran y tueddiad i symud oddi wrth brentisiaethau Lefel 2, gan ddweud na ddylid diystyru pob cwrs ar y lefel hon. Cododd y problemau a fyddai'n bodoli o ran trafnidiaeth a logisteg ar ôl Brexit a'r angen i uwchsgilio gweithwyr yn y sector hwn. Yn ddiweddarach, ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud y gallai Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fod yn ddull o roi blaenoriaeth i brentisiaethau cysylltiedig â thrafnidiaeth. O ran prentisiaethau Lefel 2, dywedodd y Gweinidog nad oedd y rhain yn cael eu hanwybyddu er bod angen gweld unigolion yn datblygu y tu hwnt i'r lefel honno.
- 5.9 Dywedodd Paul Greenwood fod llawer o waith i wneud o hyd o ran ennill calonnau a meddyliau myfyrwyr, rhieni ac athrawon, gan eu bod yn tueddu i ganolbwyntio ar y llwybr academaidd i waith yn unig. Dywedodd fod cyfle i edrych ar y sectorau yng Nghymru sy'n cynhyrchu'r gwerth mwyaf a'r rheini lle ceir bylchau mewn sgiliau o hyd, efallai. Yn ogystal, dywedodd nad drwy'r llwybr academaidd, o anghenraid, y mae creu entrepreneuriaid. Dywedodd ei bod yn ymddangos fod Cymru ar ei hôl hi o ran cynhyrchu entrepreneuriaid o'i gymharu ag ardaloedd eraill yn y DU.
- 5.10 Rhoddodd Julie Cook sylwadau ar nifer o feysydd:
- (i) Targedau – tra bo darparwyr yn ysgogi niferoedd efallai na fydd rhai prentisiaethau yn briodol;
 - (ii) Cryfhau llais y cyflogwr (paragraff 7 yn y papur am brentisiaethau yn eitem 5 ar yr agenda) – efallai bod gan lais y gweithiwr/dysgu rôl gyfyngedig i'w chwarae, yn enwedig yng nghyswllt gweithwyr bregus;
 - (iii) Hyrwyddo cynwysoldeb – roedd yr ymrwymiad yn ymddangos yn amwys ac nid oedd yn glir sut y byddai hyn yn gweithio. Dywedodd nad oedd dim sôn am gynnwys TUC yn nhermau bargeinio â chyflogwyr;
 - (iv) Canolbwyntio ar brentisiaethau Lefel 3 – roedd hyn yn beth da, ond mae angen rhoi sylw i lefelau 1 a 2.

- 5.11 Yng nghyswllt cynwysoldeb, soniodd y Gweinidog am y gyfran uwch o ferched oedd yn manteisio ar brentisiaethau erbyn hyn ond mae mwy o waith i wneud yng nghyswllt cefnogi pobl ag anableddau a siaradwyr Cymraeg.
- 5.12 Dywedodd Martin Warren ei fod yn cytuno'n rhannol â'r ddadl ynghylch di-fuddiant prentisiaethau Lefel 7. Dywedodd er ei bod yn bosibl fod hyn yn amlwg mewn cwmnïau mawr, nid oedd mor amlwg mewn busnesau bach neu fusnesau cefn gwlad.
- 5.13 Mynegodd Arweinydd y Tŷ ddiddordeb mewn ymgysylltu ynghylch newid ymddygiad ac roedd am weld cynlluniau i gymell pobl ag anableddau a merched i gymryd rhan mewn prentisiaethau STEM. Fodd bynnag, dywedodd nad oedd niferoedd yn adlewyrchu'r newid ac y byddai'n croesawu mewnbyn gan aelodau ar fesurau ymarferol y gellid eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r broblem hon.
- 5.14 Cododd Robert Lloyd Griffiths y mater o addasiadau rhesymol yn y gweithle. Dywedodd fod cyflogwyr yn barod i roi sylw i hyn ond bod angen cymorth ymarferol arnynt ac awgrymodd efallai bod gan Busnes Cymru rôl i chwarae yn hyn o beth. Crybwyllodd Arweinydd y Tŷ ei bod wedi siarad â chyflogwr yn ei hardal hi a oedd wedi hwyluso mynediad drwy fod yn fwy hyblyg. Awgrymodd hithau hefyd y gallai Busnes Cymru fod yn fforwm ar gyfer rhoi sylw i'r mater o hygyrchedd.
- 5.15 Holodd Julie Cook am ymwneud busnesau o ran rhoi sylw i anableddau cudd ac awtistiaeth, gan grybwyll yr hoffai TUC Cymru fod â rhan yn eu helpu i fanteisio ar brentisiaethau.
- 5.16 Gwnaeth Shavanah Taj y sylw bod rhai cyflogwyr yn ystyried gwneud addasiadau rhesymol yn gost untro, er y dylid adolygu hyn yn barhaus
- 5.17 Dywedodd Ben Cottam nad oedd busnesau yn rhoi digon o sylw i'r mater hwn a bod angen creu model arferion gorau. Dywedodd y dylid cynnwys y Ffederasiwn Busnesau Bach yn y mater hwn.
- 5.18 Gwnaeth Arweinydd y Tŷ sylw ynghylch yr anfanteision y mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth geisio cael gwaith. Dywedodd bod adnoddau yn y cohort hwn oedd yn cael eu tanddefnyddio ac a allai ateb y gofynion o ran prinder sgiliau.
- 6. (6a) Nodyn a (6b) Camau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2018**
- 6.1 Cytunodd yr aelodau ar y nodyn a'r camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol ac nid oedd ganddynt unrhyw sylw pellach i'w wneud yn eu cylch.

7. Toll Teithwyr Awyr ac Unrhyw Fater Arall

- 7.1 Nododd Arweinydd y Tŷ ymholiad y Pwyllgor Materion Cymreig ynghylch datganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru. Dywedodd y byddai swyddogion yn paratoi datganiad ac yn ei ddosbarthu i aelodau'r Cyngor.

CAM GWEITHREDU: Swyddogion Llywodraeth Cymru i baratoi datganiad i'w ddosbarthu i aelodau'r Cyngor er mwyn cytuno arno.
--

- 7.2 Rhoddodd Ben Cottam wybod i'r Cyngor eu bod wedi ysgrifennu at y Canghellor i ofyn iddo gyhoeddi yn ei gyllideb y byddai'r Doll Teithwyr Awyr yn cael ei datganoli i Gymru.
- 7.3 Nid oedd dim eitemau busnes ychwanegol gan aelodau'r Cyngor.

8. Cloi